Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/05807/19

Annwen Hughes

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

30 Ebrill 2019

Annwy Ms Hughes

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ebrill mewn perthynas â gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti. Rwy'n nodi eich cefnogaeth ar gyfer y mater hwn.

Mae lles anifeiliaid a sicrhau bod perchnogion anifeiliaid yn ymddwyn mewn ffordd gyfrifol yn flaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (WAHWFG). Rydym wedi ymrwymo i gynnal safonau lles uchel ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw yng Nghymru, yn ystod pob cyfnod o'u bywydau.

Daeth Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2015. Mae'r Rheoliadau'n gwneud trwydded yn ofynnol i unrhyw un sydd â thair gast fridio neu fwy, ac yn gosod meini prawf llym ar gyfer y bridwyr trwyddedig hynny. Gwnaeth cyflwyno'r Rheoliadau arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch llesiant mewn sefydliadau bridio cŵn yng Nghymru. Dyma oedd y ddeddfwriaeth gyntaf o'r fath yn y DU. Er hynny, credaf y byddai'n werth chweil ymchwilio i'r posibilrwydd o wahardd gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti, fel y dywedais yn fy natganiad llafar ar 19 Mehefin 2018, ac rwyf wedi cadarnhau fy mod yn bwriadu adeiladu ar y gwelliannau a wnaed ers i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) 2014 ddod i rym.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael ag achos gwreiddiol unrhyw bryderon ynghylch lles wrth inni newid deddfwriaeth. Mae gwybodaeth am gadwyn gyflenwi cŵn bach yn arbennig o arwyddocaol yn y broses hon. Yn dilyn fy ymrwymiad, lansiais ymgynghoriad ar werthu cŵn bach drwy drydydd parti ar 19 Chwefror, a fydd yn dod i ben ar 17 Mai. Isod rwyf wedi atodi dolen i dudalen yr ymgynghoriad, ac rwy'n edrych ymlaen at dderbyn eich cyfraniad.

https://llyw.cymru/gwerthiant-trydydd-parti-cwn-chathod-bach

Yn gywir

Lesley Griffiths

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs